north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
# 15fed TACHWEDD, 2019

**TEITL:** *Diweddariad ar Gynllun Twf Gogledd Cymru*

**AWDUR:** *Colin Everett, Prif Weithredwr Arweiniol – Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru*

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar ddatblygiad Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae'r adroddiad wedi strwythuro yn unol a'r gweithgareddau allweddol.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Gofynnir i aelodau dderbyn yr adroddiad hwn sy'n rhoi diweddariad ar Gynllun Twf Gogledd Cymru.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

## 4. PENAWDAU'R TELERAU

4.1. Arwyddodd cynrychiolwyr o'r Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain Benawdau'r Telerau ar y 4ydd o Dachwedd, 2019. Mae Penawdau'r Telerau yn cadarnhau y buddsoddiad o £240m yn y saith rhaglen strategol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Cafodd datganiad i'r wasg ar y cyd ei ryddhau gan y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn ogystal mae datganiad mewnol ac dogfen cwestiwn ac ateb wedi rannu gyda holl bartneriaid y Bwrdd Uchelgais.

## 5. SWYDDFA RHAGLEN

5.1. Mae 5 penodiad wedi gwneud i'r Swyddfa Rhaglen. Bydd y Rheolwr Rhaglen Digidol yn cychwyn yn ei swydd ar y 18 o Dachwedd, y Rheolwr Rhaglen Ynni ar y 9fed o Ragfyr, a'r tri swyddog arall (Cyfarwyddwr Rhaglen, Rheolwr Gweithrediadau ac Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo) yn cychwyn yn ei swydd ar y 1af o Ionawr 2020.

5.2. Bydd y Swyddfa Rhaglen yn datblygu dros amser, bydd y capasiti i wneud hynny yn cael ei gynnwys yn y cais am arian ESF.

## 6. CYTUNDEB LLYWODRAETHU 2

6.1. Mynychodd nifer o Swyddogion weithdy dan arweiniad Pinsent Masons ar Gytundeb Llywodraethu 2 ar y 23ain o Hydref 2019. Yn ystod y gweithdy cafodd materion lefel uchel partneriaeth a llywodraethu ei trafod. Bydd Pinsent Masons yn gweithio ar ddrafft o Gytundeb Llywodraethu 2 yn dilyn y gweithdy.

**7. ACHOSION BUSNES 5 CAM**

7.1. Bydd y Swyddfa Rhaglen yn arwain ar ddatblygiad yr Achosion Busnes 5 Cam ar gyfer prosiectau'r Cynllun Twf. Mae'r gyllideb yn cynnwys arian ar gyfer penodi Ymgynghorwyr ar gyfer cefnogi gyda'r gwaith o ddatblygu'r Achosion Busnes. Bydd y gwaith yma yn cychwyn unwaith bydd y Swyddfa Rhaglen mewn lle.

**8. RHAGLEN WAITH AC COFRESTR RISG**

8.1. Yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd Uchelgais, mae Swyddogion yn gweithio ar adolygu a diweddaru'r Rhaglen Waith, bydd fersiwn ddiwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais yn ystod mis Rhagfyr.

8.2. Mae'r Grŵp Swyddogion Gweithredol yn rheoli y risgiau byw sydd yn rhan o'r Gofrestr Risg, ac bydd disgwyliad i'r Swyddfa Rhaglen adolygu'r Gofrestr Risg yn y flwyddyn newydd.

**9. DYDDIADAU CYFARFODYDD 2020**

9.1. Isod mae rhestr arfaethedig o holl ddyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2020:

Ionawr 24ain, 2020
Mawrth 20fed, 2020
Mehefin 12fed, 2020
Gorffennaf 31ain, 2020
Hydref 2il, 2020
Rhagfyr 11eg, 2020

**10. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

10.1. Cafodd y Rhaglen Waith ar Gofrestr Risg ei trafod gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol ar y 25ain o Hydref, 2019.

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro – Corff Lletya:**

" Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb"

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 y Corff Lletya):**

"Cadarnhaf fy mod i wedi cytuno cynnwys yr adroddiad gyda'r awdur. Cyflwynir sylwadau pellach, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Bwrdd."